**COFNODION CYFARFOD CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR – NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, DDYDD IAU, 24 IONAWR 2019**

PRESENNOL
Y Cynghorydd DW Meredith (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M Barnes, B Baynham, G Breeze, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, D O Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, S M Hayes, A Jenner, E A Jones, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, H Lewis, K Lewis, P E Lewis, S Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, C Mills, G Morgan, JG Morris, R Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, J Wilkinson, A Williams, G I S Williams, D H Williams, J Williams, J M Williams, R Williams ac S L Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr MC Alexander, D E Davies, E Durrant, J Evans, H Hulme, N Morrison, WD Powell, K M Roberts-Jones a T J Van-Rees.

| 2. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2018 ac 20 Tachwedd, 2018.

| 3. | **DATGANIADAU O FUDDIANT** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Dywedodd y Cadeirydd y byddai e-bost ynglŷn â'i weithgareddau yn cael ei anfon at yr Aelodau.

| 5. | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** |
|---|---|

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet yn canolbwyntio ar bennu'r gyllideb a bod y Cyngor wedi derbyn y dyraniad cyllideb isaf gan Lywodraeth Cymru am y $10^{fed}$ flwyddyn yn olynol. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, roedd gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud. Byddai dirprwyaeth fasnach ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion yn mynd i'r Senedd ddiwedd mis Ionawr, ar wahoddiad yr ASau lleol i gyfarfod â'r Gweinidog. Roedd amrywiaeth o fusnesau lleol wedi cael eu gwahodd i fod yn bresennol ac roedd gwahoddiad i bob Cynghorydd.

O ran ysgolion, disgwyliwyd i adeilad newydd Ysgol Carno agor ym mis Mawrth a disgwyliwyd i Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru y Trallwng agor ym mis Medi.

Cyflwynwyd cais cynllunio i ddisodli Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth a gobeithiwyd y gallai gwaith ddechrau ar hyn yn y gwanwyn.

Disgwyliwyd i'r Prif Weithredwr newydd, Dr Caroline Turner, ddechrau ym mis Chwefror ac roedd y Cyngor newydd benodi Vanessa Young yn Gyfarwyddwr Corfforaethol dros Weddnewid ac mae gan y ddwy amrywiaeth eang o brofiad. Roedd gan y Cyngor Dîm Arweinyddiaeth llawn bellach.

Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal ynghylch dod â chymal o Ras Fenywod y Tour of Britain i Bowys ym mis Mehefin 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor fod TGCh a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatrys y mater o ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd gweddarlledu. Dywedodd fod hon yn brif flaenoriaeth ac y byddai'n cael sylw cyn gynted â phosibl.

| 6. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod Arolygiaeth Gofal Cymru [AGC] wedi llunio adroddiad ar ei harolygiad o Wasanaethau Plant ym mis Hydref a'i gwaith yn monitro Gwasanaethau Oedolion. Byddai'r rhain yn destun Seminar Aelodau ar 30 Ionawr. Roedd adroddiad AGC yn cyd-fynd â disgwyliadau, gyda chydnabyddiaeth o welliannau sylweddol mewn rhai meysydd, ond ceir meysydd sy'n peri pryder difrifol o hyd, sy'n cael sylw. O ran y gyllideb, roedd bwlch o £17 miliwn a chyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai pwyslais y cyfarfod Aelodau yn ddiweddarach yn y diwrnod.

| 7. | CWESTIYNAU'R CYHOEDD |
|---|---|

7.1. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer yr Economi a Chynllunio gan Mr George Harris

**A all y cyngor gadarnhau, os gwelwch yn dda, beth yw'r fantais ariannol, mewn punnoedd, a fydd yn cael ei sicrhau gan y cyngor ynghyd ag amseriad hyn, trwy ganiatáu i brosiect Fferm Wynt Hendy barhau?**

**Ymateb**
Ni fydd Cyngor Sir Powys yn elwa'n ariannol o ddatblygiad Fferm Wynt Hendy. Mae cytundeb Adran 106 ar waith i sicrhau bod £17,500 ar gael i liniaru effaith bosibl y datblygiad ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy.

Gan nad oedd Mr Harris yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, darllenwyd ei gwestiwn atodol ar ei ran, "Drwy ddatgan "Ni fydd y Cyngor yn elwa'n ariannol o ddatblygiad Fferm Wynt Hendy" ac o ystyried y credir bod Cyngor Sir Powys wedi derbyn £680,000 gan Ffermydd Gwynt trwy ardrethi busnes yn 2010 fel y nodwyd gan AC Llywodraeth Cymru, a all rhywun dybio, felly, fod Hendy wedi ei eithrio o ardrethi busnes felly, ac na ragwelir unrhyw arian pellach naill ai'n flynyddol nac ymlaen llaw? Yn amlwg, pe bai symiau mawr o ardrethi busnes yn

cael eu talu, ac ymlaen llaw, gallai hyn fod wedi bod yn gymhelliad i'r cyngor anwybyddu'r amodau cynllunio y methwyd â'u bodloni a'r newidiadau sylfaenol i'r cynllun a wnaeth alluogi'r datblygwr i fwrw ymlaen."

Ymatebodd Deiliad y Portffolio mai cynllun Llywodraeth Cymru yw Ardrethi Busnes ac nad yw dan reolaeth y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn pennu'r ddeddfwriaeth, y polisi, y lefelau ardrethi busnes na'r gwerth ardrethol. Mae'n gweinyddu'r gwaith o filio a chasglu ardrethi busnes ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff y symiau a gesglir ledled Cymru eu cyfuno gan Lywodraeth Cymru wedyn, sy'n mynd ati i benderfynu sut y mae'n dymuno ailddosbarthu cyllid ardrethi busnes ledled Cymru, ynghyd â dulliau ariannu eraill ar gyfer llywodraeth leol i bob cyngor lleol. Penderfyniad Asiantaeth Swyddfa Brisio llywodraeth ganolog fydd pa werth ardrethol sy'n cael ei gymhwyso i'r safle a phryd y byddai yn cael ei gynnwys ar y rhestr ardrethi swyddogol.

7.2. Cwestiwn i'r Arweinydd gan Mr Martin Aymes

**Mae Cyngor Sir Powys yn dadlau'r angen am fod yn Agored, yn Dryloyw ac yn Gynhwysol yn ei nodau ar gyfer democratiaeth a chyfranogiad cyhoeddus ym mhrosesau Llywodraeth Leol.**

**Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Aber-miwl ar 4 Rhagfyr 2018 — o flaen tua 275 o drigolion lleol — cynigiodd yr Arweinydd Rosemarie Harris, a'r Aelodau Cabinet Aled Davies a Phyl Davies ar y cyd i roi mynediad at Gyfreithiwr y Cyngor i Martin Aymes, i drafod rhai agweddau cyfreithiol ar Gyfleuster Crynhoi Deunydd Ailgylchu arfaethedig Aber-miwl.**

**Ers hynny, mae Cyfreithiwr y Cyngor wedi gwrthod unrhyw drafodaethau cyfreithiol o'r fath.**
**A yw Cyngor Sir Powys yn barod i drefnu bod Cyfreithiwr y Cyngor yn cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i nodau?**

**Ymateb**
Diolch am eich cwestiwn. Nid yw'r Cynghorwyr Aled Davies, Phyl Davies na minnau yn gallu cofio cynnig mynediad at Gyfreithiwr y Cyngor i chi. Mae Cyfreithiwr y Cyngor wedi fy hysbysu nad yw wedi cael unrhyw gais am gyfarfod ac nid yw Cyfreithiwr Cynllunio'r Cyngor wedi cael cais o'r fath chwaith.

Pe baech yn ysgrifennu at Gyfreithiwr y Cyngor yn Neuadd y Sir, bydd yn trefnu ymateb priodol.

Cyfeiriodd Mr Aymes at y cyfarfod cyhoeddus yn Aber-miwl, lle'r oedd yr Arweinydd, Deiliaid Portffolio a swyddogion yn bresennol, ac at gwestiwn a ofynnwyd gan yr aelod lleol i'r cyfreithiwr cynllunio yn ystod gohiriad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Rhagfyr. Cwestiwn atodol Mr Aymes oedd hyn: "Os nad oes modd cael cyfreithiwr sy'n gymwys i gael y drafodaeth gyfreithiol hon gyda ni, sut alla i, gyda'r ddogfen hon, gael cyfarfod, ac a ydych chi'n barod i drefnu cyfarfod o'r fath ar frys – a yw hynny'n dangos didwylledd a thryloywder mewn llywodraeth pan fo'n rhaid inni recordio fideo o gyfarfod i sicrhau eich bod yn cadw at yr addewid a wnaed?" Mewn ymateb, ymddiheurodd yr Arweinydd gan nad oedd yn cofio gwneud addewid i'r cyfreithiwr gyfarfod, ond

dywedodd ei bod yn hapus i gyfarfod gyda'r bobl o Aber-miwl ac y dylid rhoi pob eitem ar y bwrdd.

7.3. Cwestiwn i'r Arweinydd gan Mr Jeffrey Matthews

**O ystyried y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd Gareth Pugh ac a basiwyd yn unfrydol yn y Cyfarfod Cyngor llawn ar 18 Hydref, a oedd yn cynnig mwy o gysylltu, ymgynghori, ymgysylltu â chymunedau, bod yn ddidwyll, yn agored a thryloyw mewn llywodraeth leol, a yw'r cyngor yn teimlo bod hyn yn cael ei wneud yn llawn erbyn hyn pan rydym yn dal i weld dinasyddion Gogledd Powys yn parhau i fod yn hynod bryderus a gofidus am gydsyniad adeiladu sydd wedi cael ei orfodi'n gyflym ac yn ddi-drefn, gan gynnwys gwallau a chamgynrychiolaeth posibl o ddata a ddarparwyd i Gynghorwyr Sir Powys ac sy'n awgrymu erbyn hyn fod angen ailystyried a diweddaru rhai cydsyniadau hanesyddol cyn i waith adeiladu ddechrau?**

**Ymateb**

Roedd y cynnig a wnaed ac a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Hydref yn ymwneud â sut yr ymgysylltir yn well â chymunedau yn gyffredinol. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gyfathrebu mor effeithiol â phosibl gyda chymunedau a bydd yn ymdrechu i barhau i wella cyfathrebu effeithiol.

Nid oedd y cynnig ei hun yn cyfeirio at unrhyw fater penodol, er bod cyfeiriad at y datblygiad yn Aber-miwl. Roedd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad o'r fath a bu rhagor o ymgysylltu yn dilyn y cyfarfod cyngor wrth i gyfarfod cyhoeddus gael ei gynnal gyda'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Deiliad Portffolio i gyd yn bresennol. Rydym wedi ymrwymo i gynnal rhagor o gyfarfodydd sy'n ddigon rheolaidd gyda'r cynrychiolwyr cymunedol yn y dyfodol.

Mae proses briodol yn parhau i gael ei dilyn ar gyfer y datblygiad hwn, ac nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw wallau neu gam-gynrychioli data a fyddai'n gofyn am unrhyw ymchwilio pellach.

Cwestiwn atodol Mr Matthews oedd hyn: "O ystyried yr ymddengys bod Cynghorwyr yn dal i synnu at raddfa'r brotest a'r gofid parhaus yng nghymuned Aber-miwl yn y misoedd diwethaf, er gwaethaf y ffaith y cofnodwyd yn 2016 y byddai gwrthwynebiadau, a yw'r Cyngor cyfan yn dal i gredu yr ymgynghorwyd â chymuned Aber-miwl yn ddigonol i'r safonau moesegol uchaf ac nid rhyw fymryn yn uwch yn unig na'r safon sy'n ofynnol o dan y gyfraith ar bob cam o'r broses, o ystyried yr adeilad a fydd yn newid bywydau a fydd yn cael ei leoli yn y pentref ac y byddai hyn yn gwrthsefyll ymchwiliad ar sail foesegol? A wnaiff y Cyngor gomisiynu ymchwiliad allanol nawr i ystyried a ymgynghorwyd â'n cymuned yn briodol ac yn gyflym, a gohirio pob gwaith cyn cyhoeddi'r canfyddiadau?"

Ymatebodd yr Arweinydd ei bod wedi cytuno i gyfarfod â'r gymuned. Nododd fod ganddi gofnod o'r amserau y cysylltwyd â'r gymuned ac yr ymgynghorwyd â hi, ac y byddai'n rhannu hwn gyda'r Aelodau, fel eu bod yn ymwybodol o'r cysylltiad a fu. O ran ymchwiliad allanol, dywedodd y gellid trafod y mater hwn yn y

cyfarfod y cytunodd iddo mewn ymateb i'r ymgynghoriad diwethaf. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod yr Awdurdod wedi mynd y tu hwnt i weithdrefnau ymgynghori arferol.

7.4. Cwestiwn i'r Arweinydd gan Mr Stephen Meadowcroft

**Mae'n ymddangos bod Cyngor Sir Powys yn awyddus i ddatblygu partneriaethau Preifat/Cyhoeddus ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol fel y gellir gweld gyda ffurfio Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru â Grŵp Kier. Ar adeg ysgrifennu'r cwestiwn hwn, mae'r dyddiad ar gyfer cyflwyno cyfrifon ariannol y cwmni hwn (23/12/18) wedi mynd heibio ac felly nid yw llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y fenter hon yn eglur.**
**Pa mor llwyddiannus y mae'r fenter hon wedi bod (o gofio'r adroddiadau am anawsterau ariannol Grŵp Keir) ac a oes gennych gynlluniau i ffurfio partneriaethau â chwmnïau preifat eraill fel Veolia ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli gwastraff?**

**Ymateb**
Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Matthew Dorrance sy'n ymddangos yn ddiweddarach ar yr agenda, dim ond ers tua 18 mis y mae'r bartneriaeth gyda Kier i ffurfio Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru wedi bod ar waith, ond mae wedi llwyddo i sicrhau arbedion i'r Cyngor.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ffurfio unrhyw bartneriaethau gyda gweithredwyr preifat ar gyfer darparu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Mae gennym gontractau gyda chwmnïau allanol ar waith ar gyfer rhai agweddau ar y gwasanaeth, fel gwaredu gwastraff gweddilliol a gweithredu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref.

Dyfarnwyd gan y Cadeirydd fod cwestiwn atodol Mr Meadowcroft allan o drefn, gan nad oedd yn ymwneud â'r mater o drefniadau partneriaeth y cyfeiriwyd ato yn ei gwestiwn gwreiddiol a'r ymateb.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai **Eitem 14.15** yn cael ei drafod nesaf gan nad oedd y Cynghorydd Hulme yn bresennol i ofyn cwestiwn atodol ac roedd rhai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol a oedd â diddordeb yn nhestun y cwestiwn.
Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer yr Economi a Chynllunio gan y Cynghorydd Heulwen Hulme

**A ydych chi'n fodlon bod yr Awdurdod yn gorfodi'r amodau fel y'u nodwyd yn y gymeradwyaeth cynllunio i fferm wynt Hendy?**

**Ymateb**
Er ein bod yn anfodlon bod y datblygiad wedi cychwyn heb fodloni'r amodau cyn-cychwyn, rwy'n fodlon bod Swyddogion Cynllunio, ar y cyd â sefydliadau partner, yn monitro'r safle gyda'r bwriad o gymryd camau gorfodi os bydd yn fuddiol gwneud hynny. Adolygwyd a derbyniwyd y broses hon gan Gwnsleriaid fel sy'n briodol. Rydym yn ymwybodol o rwystredigaeth rhai aelodau o'r gymuned leol gyda diffyg camau gorfodi tybiedig Swyddog Cynllunio Powys mewn cysylltiad â'r safle, ond mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod prosesau cyfreithiol priodol yn cael eu dilyn o ran ei weithredoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol i'r Deiliad Portffolio.

| 8. | TROSGLWYDDIADAU CYLLIDEB |
|---|---|

8.1. Parc Busnes Aber-miwl

Ystyriodd y Cyngor y trosglwyddiad cyfalaf ar gyfer Parc Busnes Aber-miwl i'w drosglwyddo o 2018/19 i 2019/20.

Gofynnodd Cynghorwyr am eglurhad ynghylch a oedd y cyfan o'r £2.7 miliwn ar gyfer yr uned ailgylchu ym Mharc Busnes Aber-miwl neu a oedd rhywfaint o'r cyllid ar gyfer y Parc Busnes. Dywedodd y Deiliad Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau bod hwn ar gyfer y cyfleuster ailgylchu, ble bynnag y bydd yn cael ei leoli, ac y cyfeiriwyd ato yn y gyllideb fel Parc Busnes Aber-miwl. Roedd Cynghorwyr yn bryderus bod angen cael eglurder. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai ystyriaeth o'r adroddiad gael ei ohirio a'i ail-gyflwyno yn y cyfarfod nesaf gan nodi faint o'r cyfalaf sydd ar gyfer y cyfleuster ailgylchu a faint sydd ar gyfer datblygiad y Parc Busnes yn y dyfodol.

Fodd bynnag, cyn bwrw'r bleidlais, dywedodd y Deiliad Portffolio ar gyfer Cyllid y byddai'n tynnu'r adroddiad yn ôl ac yn dod yn ôl gyda mwy o fanylion yn y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i bwynt o drefn a godwyd gan y Cynghorydd Roberts, ymddiheurodd y Deiliad Portffolio ar gyfer Cyllid am sylw a wnaeth yn ystod y ddadl ar aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cais pan gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Dywedodd y Deiliad Portffolio nad oedd yn dymuno awgrymu bod y Rhyddfrydwyr wedi pleidleisio fel grŵp yn y Pwyllgor Cynllunio, ond y cwbl a wnaeth oedd nodi bod y bleidlais o blaid ar draws y sbectrwm gwleidyddol i'r cais yn y Pwyllgor Cynllunio.

8.2. Adleoli i Gwrt-y-Plyffin

Ystyriodd y Cyngor y trosglwyddiad cyfalaf ar gyfer yr adleoliad i Gwrt-y-Plyffin i'w drosglwyddo o 2018/19 i 2019/20. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Phyl Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Karl Lewis, ac o 56 pleidlais i 1 ymataliad

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiad o £897,000 o'r gyllideb i 2019/20, fel y nodir ym mharagraff 1.2 yr adroddiad.** | **Sicrhau bod trosglwyddiadau priodol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf rhagweledig.** |

8.3. Cronfa Halen Wrth Gefn Strategol

Ystyriodd y Cyngor y trosglwyddiad cyfalaf ar gyfer y Gronfa Halen Wrth Gefn Strategol i'w drosglwyddo o 2018/19 i 2019/20. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan a'i eilio gan y Cynghorydd Karl Lewis ac o 60 pleidlais i 0

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiad o £824,512 o'r gyllideb i 2019/20, fel y nodir ym mharagraff 1.2 yr adroddiad.** | **Sicrhau bod trosglwyddiadau priodol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf** |

| | |
|---|---|
| | **rhagweledig.** |

Gohiriwyd y cyfarfod am 15 munud.

| 9. | CYFRIFOLDEBAU STATUDOL Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad y Cyfreithiwr i'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiwn am y ffioedd sy'n daladwy, i'r Prif Weithredwr yn ei swyddogaeth fel Swyddog Canlyniadau mewn etholiadau, yn ogystal â'i gyflog, dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor nad oedd y rhain ar gael ganddo ar hyn o bryd ond y byddai'n ychwanegu'r wybodaeth hon at y cofnodion. Dywedodd y Cynghorydd ei bod yn teimlo y byddai'r wybodaeth hon o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor fod yn rhaid i'r Cyngor dalu'r ffioedd, ond nodwyd nad oedd yn rhaid i'r Swyddog Canlyniadau dderbyn y ffioedd. Dywedodd y Cyfreithiwr fod talu ffioedd ar gyfer etholiadau yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, felly gallai'r sefyllfa newid yn y dyfodol.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd David Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Phil Pritchard, ac o 53 pleidlais i 1 yn erbyn ac 1 ymataliad

| Penderfynwyd | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Y dylid penodi Dr Caroline Turner i'r Swyddi Statudol canlynol:**<br>• **Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;**<br>• **Swyddogaethau yn ymwneud â Swyddog Priodol y Cyngor nad ydynt wedi eu neilltuo i swyddogion eraill eisoes;**<br>• **Swyddog Canlyniadau (Swyddog Canlyniadau Dros Dro a Swyddog Canlyniadau Lleol)**<br>**fel Prif Weithredwr o 25 Chwefror, 2019.** | **I wneud y penodiad i Swyddi Statudol sy'n rhan o swyddogaeth y Prif Weithredwr.** |

| 10. | STRWYTHUR Y PWYLLGOR CRAFFU |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad ar strwythur newydd arfaethedig y Pwyllgor Craffu. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor y byddai'r Cabinet yn cymryd rhan yn y Pwyllgor Cydgysylltu yn unig ac y byddai'n cefnogi'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn cydweithio. Roedd y strwythur hwn hefyd yn seiliedig ar sut y mae Awdurdodau eraill yn gweithio.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Phil Pritchard a'i eilio gan y Cynghorydd Gwilym Williams ac o 61 pleidlais

| Penderfynwyd | Rheswm am y penderfyniad |
|---|---|
| **(i) y dylid cymeradwyo'r cynigion fel y'u nodir yn yr adroddiad** | **Adolygu strwythur y pwyllgor craffu.** |

| | |
|---|---|
| **(ii) os nad yw'r wybodaeth ar gael ar gyfer y cyfarfod:**<br>• **y dylid awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i dderbyn yr enwebiadau ar gyfer aelodaeth o'r 3 phwyllgor a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu o'r grwpiau gwleidyddol perthnasol, fel y gellir cyflwyno strwythur newydd y pwyllgor craffu ar unwaith ar ôl y cyfarfod hwn.**<br>• **y dylid awdurdodi Cyfreithiwr y Cyngor i hwyluso a'i awdurdodi i dderbyn dyraniad cadeiryddion y pwyllgor craffu a enwebwyd gan y grwpiau gwleidyddol**<br>• **y dylai Cyfreithiwr y Cyngor hysbysu cyfarfod nesaf y Cyngor am enwau'r aelodau a benodwyd gan eu grwpiau gwleidyddol fel Aelodau o'r 3 phwyllgor a Chadeiryddion y pwyllgorau craffu fel yr uchod**<br>**(iv) y dylid cynnal adolygiad o'r strwythur newydd o fewn 6 neu 12 mis ar ôl ei gyflwyno.**<br>**(v) y dylid cymeradwyo'r diwygiadau i Ran 2 (Diben, Diffinio, Dehongli a Diwygio) a Rhan 7 (Rheolau'r Weithdrefn Graffu) Cyfansoddiad y Cyngor.** | |

| 11. | PENODI AELOD CYFETHOLEDIG O'R PWYLLGOR CRAFFU |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad gan Gyfreithiwr y Cyngor.

| Penderfyniad | Rheswm am y penderfyniad |
|---|---|
| **Penodi Mr Graeme Robson yn Gynrychiolydd Cyfetholedig – Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr (sector cynradd) i wasanaethu ar y pwyllgor craffu gan ymdrin â materion addysg nes yr etholiadau Cyngor cyffredin nesaf yn 2022.** | **I gydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor o ran neilltuo a phenodi pwyllgorau.** |

| 12. | PENODIADAU I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

12.1. Penodiad i Banel Cronfa Gwaddol Cymunedol Powys

**PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Emyr Jones yn cael ei benodi i wasanaethu ar Banel Cronfa Gwaddol Cymunedol Powys.**

12.2. Penodiad i'r Cyngor Iechyd Cymuned

**PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Edwin Roderick yn cael ei benodi i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymuned Powys.**

12.3. Penodiad i Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Bryn Titli

**PENDERFYNWYD y byddai'r Cynghorydd Hywel Lewis yn cael ei benodi i wasanaethu ar Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Bryn Titli.**

| 13. | HYSBYSIADAU AM GYNIGION |
|---|---|

13.1. Hysbysiad am Gynnig: Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a wnaed gan y Cynghorydd Sandra Davies ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sarah Lewis:

Mae'r Cyngor hwn yn ychwanegu ei gefnogaeth i Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy i wahardd ac anghyfreithloni ffermio cŵn bach trydydd parti. Bydd y Cyngor hwn yn ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogol ac yn hyrwyddo'r ymgyrch yn rhagweithiol i'n trigolion ledled y Sir. Mae'r Cyngor hwn yn gwneud cais i arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn cefnogi'r alwad am gamau brys ar y mater hwn.

Siaradodd Aelodau o blaid y cynnig a dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor pe bai'n cael ei gytuno gan y Cyngor y byddai'n cael ei wirio a oedd hon yn swyddogaeth a ddatganolwyd a byddai'r llythyr yn cael ei anfon fel sy'n briodol.

O 61 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn ychwanegu ei gefnogaeth i Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy i wahardd ac anghyfreithloni ffermio cŵn bach trydydd parti. Bydd y Cyngor hwn yn ychwanegu i enw at restr gynyddol o sefydliadau cefnogol ac yn hyrwyddo'r ymgyrch yn rhagweithiol i'n trigolion ledled y Sir. Mae'r Cyngor hwn yn gwneud cais i arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn cefnogi'r alwad am gamau brys ar y mater hwn.**

13.2. Hysbysiad o Gynnig: Calon Werdd Cymru

Nododd y Cyngor fod y cynigiwr a'r eiliwr wedi cytuno i ddiwygio geiriad eu cynnig, a wnaed gan y Cynghorydd Amanda Jenner.

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol, fel y'i diwygiwyd, a wnaed gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Bryn Davies:

Mae'r Cyngor hwn, trwy ystyried Powys fel Calon Werdd Cymru;

1. Yn cydnabod bod effeithiau posibl y Newid yn yr Hinsawdd yn peri pryder sylweddol:
2. Yn gofyn i'r ymddiriedolwyr pensiwn ymchwilio i bosibilrwydd/agweddau cyfreithiol datblygu strategaeth o ymwrthod â thanwyddau ffosil
3. Yn cefnogi egwyddorion Prydain Di-garbon a'r gwaith a wneir gan y Ganolfan Dechnoleg Amgen
4. Yn annog datblygiad cynhyrchiad a thechnolegau Hydrogen ym Mhowys gan ddefnyddio'r amgylchedd, y dŵr a'r cyflenwad ynni glân
5. Yn tynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried technolegau di-garbon a chyfleoedd economaidd cynhyrchu di-garbon newydd sy'n ystyriol o dirwedd wledig Powys yn rhan o Fargen Dwf y Canolbarth gan roi pwynt gwerthu unigryw i ni
6. Y dylai'r awdurdod weithredu strategaeth economaidd ddichonol i leihau ei allbwn carbon ac ymdrechu i ddatblygu arfer amgylcheddol gorau yn ei adeiladau
7. Y dylai'r awdurdod ymchwilio i arfer gorau mewn awdurdodau eraill fel robinhoodenergy.co.uk gyda Chyngor Swydd Nottingham a theleccy.co.uk/about/ gyda Chyngor Dinas Lerpwl, er mwyn ystyried datblygu perchnogaeth a chadwyni cyflenwi ynni lleol ond hefyd gynorthwyo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor, wrth ymateb i gwestiynau, y byddai'r Awdurdod Pensiynau yn ystyried y cynnig ac y byddai angen iddo gymryd safbwyntiau'r Cyngor i ystyriaeth wrth adolygu strategaethau buddsoddi. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau y byddai'r materion hyn hefyd yn cael eu hystyried gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ac fel cyd-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu sicrhaodd yr Aelodau y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried.

O 57 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn, gan ystyried Powys fel Calon Werdd Cymru;**

1. **Yn cydnabod bod effeithiau posibl y Newid yn yr Hinsawdd yn peri pryder sylweddol:**
2. **Yn gofyn i'r ymddiriedolwyr pensiwn ymchwilio i bosibilrwydd/agweddau cyfreithiol datblygu strategaeth o ymwrthod â thanwyddau ffosil**
3. **Yn cefnogi egwyddorion Prydain Di-garbon a'r gwaith a wneir gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen**
4. **Yn annog datblygiad cynhyrchiad a thechnolegau Hydrogen ym Mhowys gan ddefnyddio'r amgylchedd, y dŵr a'r cyflenwad ynni glân**
5. **Yn tynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried technolegau di-garbon a chyfleoedd economaidd cynhyrchu di-garbon newydd sy'n**

**ystyriol o dirwedd wledig Powys yn rhan o Fargen Dwf y Canolbarth gan roi pwynt gwerthu unigryw i ni**

6. **Y dylai’r awdurdod weithredu strategaeth economaidd ddichonol i leihau ei allbwn carbon ac ymdrechu i ddatblygu arfer amgylcheddol gorau yn ei adeiladau**
7. **Y dylai’r awdurdod ymchwilio i arfer gorau mewn awdurdodau eraill fel robinhoodenergy.co.uk gyda Chyngor Swydd Nottingham a theleccy.co.uk/about/ gyda Chyngor Dinas Lerpwl, er mwyn ystyried datblygu perchnogaeth a chadwyni cyflenwi ynni lleol ond hefyd gynorthwyo i fynd i’r afael â thlodi tanwydd.**

Gohiriwyd y cyfarfod am 1.10 p.m. ar gyfer egwyl ginio. Ailgynullodd y Cyngor am 2.00 p.m.

Cyfeiriwyd y Cyngor gan Gyfreithiwr y Cyngor yn ôl at y cwestiwn a godwyd dan Eitem 9 Cyfrifoldebau Statudol y Prif Weithredwr, ynghylch y ffioedd a delir i’r Prif Weithredwr yn ei swydd fel Swyddogion Canlyniadau.

Rhoddodd yr wybodaeth ganlynol i’r Cyngor:

Nodir ffioedd a thaliadau ar gyfer etholiadau cenedlaethol yn y Gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn Etholiadau Seneddol (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Rhif 2) 2017
- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016
- Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Taliadau Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd Heddlu) 2016
- Gorchymyn Etholiadau Senedd Ewrop (Taliadau Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Lleol) (Prydain Fawr a Gibraltar) 2014

| | Brycheiniog a Sir Faesyfed | Sir Drefaldwyn | Powys |
|---|---|---|---|
| Seneddol | £2,685 | £2,500 | |
| Cynulliad Cenedlaethol | £4,730 | £4,730 | |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu | £2,870 | £2,574 | |
| Senedd Ewrop | | | £5,152 |

Nodir taliadau Etholiadau Llywodraeth Leol yn Atodlen Taliadau’r Cyngor ac mae’r Swyddog Canlyniadau yn cael £110 fesul ward a ymleddir a £55 fesul ward na ymleddir.

| 14. | CWESTIYNAU YN UNOL Â’R CYFANSODDIAD |
|---|---|

14.1. Cwestiwn i’r Deiliad Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan

**Rydym wedi gweld cwmni contractau allanol mawr, Carillion, yn mynd i’r wal yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym wedi gweld cwmni arall, Interserve, mewn trafferthion difrifol yn yr wythnosau diwethaf.**

**Ar yr un pryd, cafodd contractwr llywodraeth rhestredig ei effeithio gan oedi a chostau gormodol ar brosiect GIG mawr. Mae ei ddyled net gyfartalog yn codi ac nid yw’r rhif a nodwyd yn cynnwys cannoedd o filoedd o bunnoedd o gyllid cadwyn gyflenwi dim ond i dalu’r biliau. Mae wedi bod yn gwneud caffaeliadau ac yn cofnodi’r ewyllys da ar werth uwch na’r pris a dalwyd. Ac eto mae’n parhau i gynyddu ei ddifidendau i gyfranddalwyr.**

**Na, nid Carillion, y contractwr allanol a aeth i’r wal, yw hwn. Kier yw hwn. Adroddodd Kier hefyd gynnydd o 17 y cant i’r ddyled net gyfartalog i £375 miliwn — a oedd yn eithrio £185 miliwn o gyllid cadwyn gyflenwi a oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, ac a adroddwyd ar wahân fel “credydwyr masnach”. Nid oedd ffigur dyled net Carillion o £900 miliwn yn cynnwys £500 miliwn o gyllid tebyg i dalu cyflenwyr.**

**Roedd gan gaffaeliad diweddaraf Kier, y grŵp adeiladu McNicholas, bris o £26 miliwn ond cofnododd y cwmni werth £43 miliwn o ewyllys da yn ei gyfrifon. Prynodd Carillion fusnesau hefyd gan gynnwys ewyllys da o fwy na 100 y cant o’r pris prynu, gan gynyddu ei asedau anniriaethol.**

**O gofio’r patrwm cyson hwn, a allwn ni fel Awdurdod sydd â menter ar y cyd â Kier:**

- **gael y sicrwydd bod Kier yn dal i fod yn endid dichonol?**
- **pa asesiad risg a wnaed i sicrhau bod rhwymedigaethau Cyngor Powys cyn lleied â phosibl?**
- **gael eglurhad o’r camau a fyddai’n cael eu cymryd pe bai Kier yn dilyn llwybr Carillion ac Interserve?**

**Ymateb**

Yn dilyn y cyfranddaliadau cyfalafiad a gyhoeddwyd gan Kier, mae aelodau’r Cabinet a Swyddogion Uwch wedi cael briff ar sefyllfa Kier gan eu Prif Swyddog Gweithredu. Rydym hefyd wedi cael sicrwydd gan eu Cyfarwyddwr Gweithredol fod y grŵp yn dal i fod yn hyderus y bydd yn bodloni ei ddisgwyliadau masnachu. Mae rhaglen Diogelu at y Dyfodol Kier, a lansiwyd ym mis Mehefin, yn gwneud cynnydd da hefyd ac maent ar y trywydd iawn i fodloni’r targedau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
Bydd y cyfranddaliadau cyfalafiad yn caniatáu i Kier gyflymu ei raglen lleihau dyledion a chynyddu cryfder ei fantolen.

Dywed Kier bod gan randdeiliaid eraill farn gadarnhaol ar y sefyllfa, gan gynnwys Swyddfa’r Cabinet y mae Kier yn rhan o’i Raglen Cyflenwi Strategol

Mae'r contract HOWPS yn nodi manylion digwyddiadau terfynu a rheoli ymadawiad a'r weithdrefn gysylltiedig y mae'n rhaid ei dilyn pe bai digwyddiad terfynu. Hefyd, mae Powys a HOWPS wedi llunio Cynllun Ymadael ar y cyd sy'n nodi'n fanwl y gofynion i sicrhau y gellir cyflawni'r trosglwyddiad o gyfrifoldeb am y ddarpariaeth o'r gwasanaethau presennol o HOWPS i Gyngor Sir Powys neu gyflenwr arall gyda chyn lleied o darfu â phosibl.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Vaughan oedd gofyn am sicrwydd gan y Deiliad Portffolio nad yw HOWPS yn ymddwyn yn esgeulus er mwyn arbed arian a'u bod yn gweithredu yn unol â'r gyfraith wrth drin a gwared asbestos o fannau yn y Sir. Gan fod y Deiliad Portffolio yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Aber-miwl, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Vaughan a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.2. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Dysgu a'r Gymraeg gan y Cynghorydd James Gibson-Watt

**A allai'r Deiliad Portffolio amlinellu pa fesurau y mae'n eu cymryd ar hyn o bryd, ac eithrio'r adolygiad presennol o'r Fformiwla Ariannu Teg ar gyfer Ysgolion, i fynd i'r afael â sefyllfa cyllideb ysgolion ddirprwyedig sy'n gwaethygu'n gyflym yn ysgolion Powys?**

**Ymateb**

Mae addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel iawn ym Mhowys mewn cyfnod ariannol anodd iawn. O dan y Cabinet hwn, mae gwariant gros ar addysg fesul disgybl wedi cynyddu 4.9% y llynedd i'r lefel uchaf yng Nghymru. Cododd gwariant net (heb ei gefnogi gan grant penodol) 2.2%, sydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.6%. Mae cyllid ysgolion fesul disgybl (heb gynnwys gwariant canolog ar anghenion dysgu ychwanegol a thrafnidiaeth ysgol) yn y 10fed safle o 22 o Awdurdodau Cymru yn 2018-19.

Mae gweithredu'r fformiwla newydd yn golygu y bydd yr Awdurdod yn dyrannu cyllid yn effeithiol i ysgolion unigol yn y dyfodol, yn seiliedig ar resymeg/model gweithredu eglur. Mae gweithredu'r fformiwla newydd yn golygu bod tryloywder lle bynnag y mae Cyrff Llywodraethu yn gwario mwy na'n model gweithredol tybiannol ar arweinyddiaeth neu unrhyw bennawd arall.

Y dystiolaeth i raddau helaeth yw nad yw'r cyllid sydd ar gael yn cael ei reoli'n effeithiol gan rai cyrff llywodraethu, ond hefyd bod yr awdurdod wedi bod yn dyrannu cyllid a oedd ar gael yn aneffeithiol yn y gorffennol. Yn ddiddorol, nid yw'r model fformiwla ariannu diweddar, a arweinir gan weithgareddau, yn argymell unrhyw drosglwyddiad cyllid sylweddol i'r sector uwchradd.

Mae'r tîm cyllid ysgolion yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac yn eu cynorthwyo i ymateb yn briodol i bwysau ariannol. Mae gweithwyr adnoddau dynol proffesiynol yn darparu cymorth hanfodol i Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu i ail-fodelu ysgolion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn eu hysgolion. Mae cyngor ar y cwricwlwm ar gael gan gynghorwyr her. Mae'r gwahanol grwpiau proffesiynol yn gweithredu fel un tîm erbyn hyn, gan gefnogi ysgol trwy weddnewidiad.

Fel Awdurdod, rydym yn defnyddio llythyrau a hysbysiadau rhybudd yn briodol erbyn hyn. Mae'r rhain fel rheol yn sicrhau cydymffurfiad pan nad yw cyrff llywodraethu wedi gweithredu'n briodol drwy eu gweithredoedd eu hunain neu'n dilyn cyngor cychwynnol. Rydym hefyd yn defnyddio pwerau ymyrryd statudol pan nad yw llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn dilyn llythyrau neu hysbysiadau rhybudd.

Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i fod yn flaenoriaeth hefyd ac mae'r adolygiad o'n darpariaeth bresennol a datblygu gallu ysgolion i ddarparu'r bil anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru yn dal i fod yn flaenoriaeth. Bydd hyn oll, ar y cyd â'n Fformiwla Ariannu Tecach, yn caniatáu i'n hysgolion barhau i ffynnu ac wynebu heriau'r dyfodol.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Gibson-Watt oedd gofyn am gadarnhad y bydd yr arian y mae'r Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y setliad tâl athrawon yn cael ei drosglwyddo'n llawn i'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, dywedodd y Swyddog Cyllid fod tua £380,000 wedi cael ei drosglwyddo i'r setliad ac yn rhan o gyllid cyffredinol y Cyngor. Yn ogystal â hyn, ceir nifer o grantiau ar gyfer 2018/19 a 2019/20 hefyd ac roedd yr Adran Addysg yn ystyried y telerau a'r amodau o ran sut y byddai'r rhain yn cael eu dyrannu. Bydd y swm a drosglwyddir i'r gyllideb ysgolion yn cael ei ystyried yn y gyllideb.

14.3. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Dysgu a'r Gymraeg gan y Cynghorydd David Jones

**Nawr bod gennym ni'r fformiwla Ariannu Tecach ar gyfer Ysgolion, pa ganran o gyfanswm y cyllid addysg sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion dan y drefn rheoli ysgolion yn lleol?**

**Ymateb**
74.53% yw'r Gyllideb Ysgolion Unigol (Cyllid Dirprwyedig) fel canran o'r gyllideb Ysgolion Iawn. Yn yr un modd ag ym mhob Awdurdod, bydd y ganran ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 ar gael ar ôl pennu'r gyllideb a chyhoeddi'r datganiad A52 diwygiedig.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones oedd iddo nodi mai 78% oedd y Gyllideb Ysgolion Unigol (Cyllid Dirprwyedig) fel canran o'r gyllideb Ysgolion Iawn yn 2016/17. Erbyn hyn roedd yn 74.53% a holodd a oedd y Deiliad Portffolio yn mynd i wrthdroi'r duedd ar i lawr hon neu a fyddai'r ffigur yn parhau i ostwng, gan fod hyn yn peri pryder i Lywodraethwyr Ysgol. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Jones a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.4. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Matthew Dorrance

**A wnaiff Aelod y Cabinet ddatganiad ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn Ward St John?**

**Ymateb**

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol mai rhaglen Llywodraeth Cymru yw Dechrau'n Deg sydd wedi ei thargedu'n ddaearyddol gan ddefnyddio data budd-daliadau incwm i gynnig mwy o gymorth i deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ym Mhowys. Yn y sir, darperir Dechrau'n Deg yn y Trallwng, y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais ar hyn o bryd.

Yn Aberhonddu, mae'r ardal Dechrau'n Deg yn ward St John. Dyfarnwyd contract i Bwyllgor Cyn-ysgol Priory i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg o fis Medi 2016. Oherwydd derbyniadau cynyddol i'r ysgol, hysbyswyd Dechrau'n Deg Powys gan y pennaeth ym mis Tachwedd 2017 na fyddai'r Llywodraethwyr yn gweithredu fel 'landlord' i'r lleoliad Dechrau'n Deg mwyach y tu hwnt i fis Mawrth 2018. Fodd bynnag, cytunwyd, yn dilyn trafodaethau, y byddai gofal plant Dechrau'n Deg yn parhau i gael ei ddarparu yn yr ysgol tan fis Rhagfyr 2018 tra bod darpariaeth arall yn cael ei sicrhau.

Yn dilyn yr hysbysiad gan Ysgol Priory, gweithiodd tîm Dechrau'n Deg Powys i ddod o hyd i safleoedd eraill a allai ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg yn Aberhonddu. Ymchwiliodd y gwasanaeth i weld a ellid addasu safleoedd presennol yn Aberhonddu i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg, ond ni chanfuwyd unrhyw safle a oedd yn bodloni'r holl ofynion erbyn mis Medi 2018. Cysylltodd y Tîm Dechrau'n Deg â darparwyr gofal plant lleol yn Aberhonddu hefyd i ddod o hyd i leoedd gwag y gellid eu defnyddio o bosibl. Cadarnhaodd y darparwr cyfrwng Saesneg yn Aberhonddu nad oedd yn dymuno bwrw ymlaen â bod yn lleoliad Dechrau'n Deg. Ym mis Tachwedd 2018, cadarnhaodd y darparwr cyfrwng Cymraeg y byddai'n fodlon darparu gofal plant Dechrau'n Deg o fis Ionawr 2019. Byddai hyn yn arwain at newid iaith o leoliad cyfrwng Saesneg yn Ysgol Priory i ddarparwr cyfrwng Cymraeg wedi'i leoli yn Ysgol y Bannau. Trafodwyd hyn gyda'r tîm Dechrau'n Deg yn Llywodraeth Cymru ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

Roedd gofal plant Dechrau'n Deg a ddarparwyd gan ddarpariaeth Cyn-ysgol Priory yn cael ei reoli gan bwyllgor gyda'r pennaeth fel Unigolyn Cyfrifol ac, fel y cyfryw, recriwtiwyd a rheolwyd y staff gan y pwyllgor. Yn yr un modd, mae'r darparwr cyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Bannau yn lleoliad a redir gan bwyllgor hefyd. Dywedodd yr awdurdod lleol felly wrth Bwyllgor Cyn-ysgol Priory, fel cyflogwr y staff, i ymchwilio i weld a fyddai goblygiadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) yn berthnasol yn yr achos hwn. Ceisiodd yr awdurdod lleol gyngor gan ei Adran Gyfreithiol hefyd a chadarnhawyd na fyddai goblygiadau TUPE yn berthnasol a darparwyd yr wybodaeth hon i Bwyllgor Cyn-ysgol Priory.

Er y cydnabuwyd nad yw'r amserlenni ar gyfer trosglwyddo o un darparwr gofal plant i'r lleoliad newydd wedi bod yn ddelfrydol, mae'n gadarnhaol nad yw teuluoedd Dechrau'n Deg wedi cael unrhyw fwlch mewn darpariaeth gofal plant o ganlyniad i'r trosglwyddiad. Er mwyn cynorthwyo teuluoedd gyda'r newid i ofal plant, ysgrifennodd y Tîm Dechrau'n Deg at yr holl deuluoedd cymwys i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Dilynwyd y llythyr hefyd gan sgwrs ffôn gyda phob teulu. Gwahoddwyd pob teulu i ddod i gyfarfod gwybodaeth 'coffi a chacen' anffurfiol yn y lleoliad gofal plant newydd cyn diwedd Tymor yr Hydref. Nod y digwyddiad hwn oedd rhoi cyfle i rieni drafod eu pryderon neu rwystrau iddynt rhag cael mynediad at y gofal plant yn y dyfodol. Crynhowyd y pryderon a'r cwestiynau a godwyd gan rieni ac maent yn cael eu trafod gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn dod o hyd i atebion posibl.

Mae Tîm Dechrau'n Deg Powys yn parhau i weithio gydag Ysgol Priory trwy gais cyfalaf i Lywodraeth Cymru i adeiladu estyniad yn yr ysgol i gynnig mwy o gapasiti i ddarparu Dechrau'n Deg yn Aberhonddu.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance oedd gofyn am ddiweddariad o'r cyfarfod yn gynharach yn yr wythnos ynghylch a fyddai'r Cyngor yn talu costau tacsi ar gyfer y plant sy'n mynd i leoliad newydd y gwasanaeth a'r cais cyfalaf i Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Deiliad Portffolio nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach ac y byddai'r rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorydd Dorrance.

14.5. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Matthew Dorrance

**Pa mor effeithiol y mae Aelod y Cabinet dros Dai yn credu yw Gwasanaeth Eiddo Calon Cymru ac a yw'n credu ei fod yn cynnig gwerth am arian i drigolion Powys?**

**Ymateb**
Fel y bydd y Cynghorydd Dorrance yn gwybod, roedd y penderfyniad i ymgymryd â Menter ar y Cyd gyda Kier i ffurfio Gwasanaethau Eiddo Calon Cymru Cyf yn un a wnaed gan y weinyddiaeth flaenorol. Gan mai fi yw'r Deiliad Portffolio ar gyfer Tai, byddaf yn ymateb i'r cwestiwn am y Gwasanaeth Tai yn unig a'r rhan y mae HOWPS yn ei chwarae yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw ymatebol i gartrefi cyngor.

Roedd y trefniadau cytundebol a sefydlwyd ar ddechrau'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r tendrwr llwyddiannus (HOWPS) sicrhau arbedion o ran y ddarpariaeth o waith trwsio ymatebol i gartrefi cyngor, yn seiliedig ar y gost o ddarparu'r gwasanaeth gan ddefnyddio'r gweithlu mewnol yn 2014-15. Yn 2014-15, £5.1 miliwn oedd cyfanswm cost darparu'r gwasanaeth, ac mae'n ofynnol i HOWPS sicrhau arbedion o £200,000 ym Mlwyddyn 1, £83,000 arall ym Mlwyddyn 2 a £128,000 arall ym Mlwyddyn 3. Er nad yw'r contract yn caniatáu mynegeio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth yn costio tua £400,000 yn llai i'w ddarparu ym Mlwyddyn 3 y contract (Gorffennaf 2019 - Gorffennaf 2020) nag yn 2014-15.

Felly er y cafwyd rhai problemau o ran ymsefydlu'r gwasanaeth cynnal a chadw ymatebol a ddarperir gan HOWPS, aethpwyd i'r afael â'r rhain i raddau helaeth erbyn hyn, ac ar sail ariannol yn unig, mae'r trefniant gyda HOWPS wedi sicrhau arbedion i'r Gwasanaeth Tai. Felly mae'n cynrychioli gwerth am arian i denantiaid cyngor Powys.

O ran gwaith a eithriwyd sydd y tu allan i gytundeb y contract, mae HOWPS wedi cyrraedd cam erbyn hyn lle maent yn darparu'r gwasanaethau hyn i'r awdurdod. Yn sgil hynny, mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r awdurdod ynghylch swyddogaethau ychwanegol fel gwaith gwella ac addasiadau. Gwerth am arian yw pwyslais y trafodaethau hyn.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorran oedd gofyn i'r Arweinydd, yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, oherwydd yr anawsterau parhaus yr oedd tenantiaid yn eu

cael gyda HOWPS a'r newidiadau a adroddwyd yn Kier, a allai'r Cabinet roi sicrwydd ynghylch sut y mae'r Cyngor yn rheoli'r risg neu ystyried dod â'r gwasanaeth yn ôl i gael ei redeg gan y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd bod y Deiliaid Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau a Chyllid yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Aber-miwl. Gan fod HOWPS yn cael ei godi yn rheolaidd, dywedodd y byddai naill ai'n cael ei ychwanegu at agenda'r Cabinet neu byddai'n cyfarfod ag Aelodau â buddiant gyda'r nod o ddatrys y problemau.

14.6. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Dysgu a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Elwyn Vaughan

**Faint o gyfarfodydd Fforwm Addysg Cymru, partneriaeth gydag ysgolion a sefydliadau allanol, sy'n rhan annatod o'r ddarpariaeth o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol, fel y'i cymeradwywyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd ers ei gymeradwyo gan Weinidogion a Chabinet Powys?**

**Ymateb**
Cymeradwywyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol y Cyngor ar gyfer 2017-20 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Oherwydd diffyg capasiti i hwyluso cyfarfodydd, nid oes unrhyw gyfarfodydd o'r hen Fforwm wedi cael eu cynnal ers cymeradwyo'r cynllun. Erbyn hyn, rydym yn bwriadu sefydlu Fforwm newydd i ganiatáu i bob sefydliad partner gydgysylltu ei ymdrechion i gefnogi darpariaeth y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Vaughan oedd gofyn sut, gan na fu unrhyw gyfarfodydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn y 18 mis diwethaf, y byddai'r gwaith yn cael ei symud ymlaen ac a allai gael dyddiad pendant ar gyfer y cyfarfod cyntaf, gan fod hyn yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Vaughan a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.7. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd John Morris

**Rwyf newydd gael e-bost gennych chi (8/01/19) sy'n nodi y gwnaed y penderfyniad i gael gwared ar y biniau gwastraff gan y cabinet y llynedd a bod yr ymgynghoriad sydd newydd ddod i ben yn ymwneud â sut y mae Cyngor Sir Powys yn gweithredu'r casgliadau gwastraff gwyrdd newydd.**

**Bydd llawer o'm cyd-gynghorwyr ac aelodau o gymunedau Powys wedi eu synnu a'u cythruddo gan hyn, a hynny'n gwbl briodol. Yn sicr yn fy ward i roeddem i gyd yn teimlo bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â holl ddyfodol casglu gwastraff gwyrdd gan gynnwys cadw'r sefyllfa bresennol. Mae llawer o drigolion a chynghorwyr wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan wneud cais i'r biniau mawr gael eu cadw.**

**A ydych yn credu eich bod wedi camarwain yr aelodau a phobl Powys sydd wedi cysylltu â'r cyngor yn ystod yr ymgynghoriad i wneud cais i'r biniau mawr gael eu cadw ac a ddylech chi fod wedi hysbysu trigolion am eich**

**penderfyniad cynharach i gael gwared ar y biniau yn rhan o fanylion yr ymgynghoriad?**

**Ymateb**
Mae wedi bod yn gwbl eglur erioed o ran y penderfyniad i gael gwared ar y biniau gwastraff gardd a chyflwyno'r gwasanaeth casgliadau am ffi. Mae'r argymhellion a gytunwyd yng nghyfarfod Cabinet 9 Hydref 2018 fel a ganlyn:

1) Cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd y codir ffi amdano, cael gwared ar bob bin gwastraff gwyrdd o Safleoedd Ailgylchu Cymunedol.
2) Cynnal ymarfer ymgynghori yn ystod mis Tachwedd fel y gall trigolion gael lleisio eu barn ar sut y dylid gweithredu'r gwasanaeth.

Cyfathrebwyd hyn wedyn drwy'r holl sianeli cyfryngau arferol gan ddenu tipyn o sylw. Nododd yr ymgynghoriad ei hun hefyd yn eglur yn y cyflwyniad y byddai'n mesur diddordeb yn y gwasanaeth newydd a hefyd yn casglu sylwadau ar sut y byddai'r gwasanaeth newydd yn edrych.

Ar y sail hon, byddwn yn awgrymu nad yw'r Aelodau na'r cyhoedd wedi cael eu camarwain mewn unrhyw ffordd.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Morris oedd gofyn am yr adroddiad ar yr ymatebion ymgynghori a pham y gwariwyd £400,000 ar finiau newydd er mwyn dechrau'r gwasanaeth newydd ym mis Mawrth. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Morris a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.8. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe

**A all y deiliad portffolio ddarparu dadansoddiad o'r costau rhedeg ar gyfer pob un o'r 18 llyfrgell ar draws y sir yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, os gwelwch yn dda?**

**Ymateb**
Gweler y daenlen ynghlwm ar gyfer dadansoddiad o'r costau rhedeg [y ceir copi ohono gyda'r cofnodion wedi'u llofnodi].

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Ratcliffe oedd gofyn a oedd unrhyw gynigion i dorri cyllidebau llyfrgelloedd mwy o faint gan fod 16.7% yn cael ei gynnig o blith y 10 o lyfrgelloedd llai o faint. Dywedodd y Deiliad Portffolio mewn ymateb bod cyd-leoli gwasanaethau yn cael ei ystyried a bod y pwyslais ar y llyfrgelloedd cangen llai i'w cefnogi nhw. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid llyfrgelloedd mwy o faint.

14.9. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion gan y Cynghorydd Iain McIntosh

**A all y deiliad portffolio a'r aelod cabinet dros wasanaethau oedolion fy hysbysu, os gwelwch yn dda, a oedd unrhyw gynlluniau i gau Canolfan Ddydd Arosfa ar Fforddd Camden, Aberhonddu, cyn 13 Rhagfyr 2018?**

**Ymateb**

Diolch am y cwestiwn ynghylch a fu unrhyw gynlluniau i gau Canolfan Ddydd Arosfa yn Aberhonddu cyn 13 Rhagfyr 2018. Er bod llawer o waith wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaethau dydd ar gyfer pobl hŷn yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar y gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2016, gallaf gadarnhau nad oedd unrhyw gynlluniau i gau Canolfan Ddydd Arosfa cyn 13 Rhagfyr 2018.

Cyn unrhyw gwestiwn atodol, ymhelaethodd y Deiliad Portffolio ar ei ymateb ysgrifenedig. Cafwyd trafodaethau ym mis Gorffennaf 2018 gydag Aelodau ac eraill, am yr amrywiaeth o newidiadau posibl i wasanaethau dydd i bobl hŷn. Trafodwyd manteision ac anfanteision adleoli'r gwasanaeth yn Aberhonddu ac ni chafwyd unrhyw drafodaeth am ddod â'r gwasanaeth i ben. Dywedodd nad oes unrhyw gynnig i ddileu'r gwasanaeth yn Aberhonddu ac ni fwriwyd ymlaen ag unrhyw un o'r opsiynau i adleoli o Arosfa.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol i'r Deiliad Portffolio.

Mewn ymateb i bwynt o drefn a godwyd gan y Cynghorydd Dorrance, gwrthododd y Deiliad Portffolio unrhyw gyhuddiad ei fod wedi camarwain y Cynghorwyr yn ei ymateb.

Gadawodd y Cynghorydd P Pritchard y cyfarfod.

14.10. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Dysgu a'r Gymraeg a'r Deiliad Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd Jackie Charlton

**CEFNDIR**

**Mae addasiadau helaeth wedi bod yn cael eu gwneud yn Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llangatwg ac mae estyniad i'r ysgol yn cael ei adeiladu. Mae'r gwaith wedi bod yn cael ei wneud ers mis Gorffennaf 2018. Mae'r prosiect wedi costio ychydig dros £500,000, y cyfrannwyd £120,000 ohono gan yr Eglwys yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Addysg yn Llangatwg.**

**Dechreuodd trafodaethau'r prosiect chwe blynedd yn ôl, ac mae'r gwaith adeiladu wedi cymryd dros 6 mis. Roedd 3 mis yn hwyr yn dechrau ar ôl disgwyl am ddyddiad cychwyn sawl gwaith yn ystod 2017.**

**Disgwyliwyd i'r gwaith gael ei orffen ym mis Medi 2018 yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd pan gytunwyd y dyddiad cychwyn adeiladu a addawyd ym mis Mai 2018. Bu'n rhaid ymestyn hwn i fis Gorffennaf oherwydd camgymeriadau gweinyddol. Mae'r problemau yn llawer rhy niferus i'w trafod yma ac mae Llywodraethwyr yr ysgol wrthi'n ceisio datrys y problemau, cadw'r ysgol ar agor ac yn barod i addysgu ar gyfer 2019.**

**Rhoddwyd sicrwydd i mi gan y deiliad portffolio yng nghyfarfod y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2018 y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau'n briodol er bod disgwyl i'r plant ddechrau'r tymor yn hwyr oherwydd gwaith adeiladu. Bu'n rhaid cytuno ar hyn gyda rhieni a'r adran addysg. Addysgwyd plant meithrin yn y Neuadd Gymunedol drws nesaf i'r ysgol ers mis Medi diwethaf gan nad oedd eu hestyniad newydd wedi ei gwblhau. Nid oedd yn barod o hyd ar 8 Ionawr 2019.**

**Y broblem fwyaf i Lywodraethwyr Llangatwg yw'r diffyg atebolrwydd, dim llinell cyfrifoldeb, a rheoli prosiect anhrefnus gyda neb yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am y tasgau pwysig hyn. Yn ystod y gwaith adeiladu, mae'r gweithlu adeiladu wedi cael mynediad llawn i'r safle drwy'r ysgol gyfan. Bu diwrnodau pan fu'n rhaid i'r ysgol gau a diwrnodau pan gaewyd yr ysgol oherwydd peryglon iechyd a diogelwch ar fyr rybudd. Mae'r Pennaeth yno i redeg yr ysgol, ond yng ngoleuni rheoli prosiect gwael disgwyliwyd iddo reoli rhai agweddau ar y prosiect, yn enwedig o ran iechyd a diogelwch a diogelu, sydd wedi cymryd llawer iawn o amser ac wedi rhoi pwysau a straen enfawr ar holl aelodau cymuned yr ysgol.**

**Mae'r prosiect wedi bod yn anhrefnus o'r dechrau i'r diwedd a does neb yn cymryd cyfrifoldeb. Gallai fod goblygiadau hirdymor i bartneriaethau Cyngor Sir Powys gydag adeiladwyr a chontractwyr ar safle ysgolion.**

**CWESTIWN**
**A ydych chi'n gwybod, fel deiliad portffolio, a oes proses eglur ar gyfer rheoli prosiect, atebolrwydd a chyfrifoldeb am brosiectau adeiladu ar y cyd yn ein hysgolion lle mae Kier a HOWPS yn gweithio mewn partneriaeth â'n Hadran Addysg yma ym Mhowys?**

**Ymateb**
Rwy'n ymwybodol bod y gwaith adeiladu estynedig wedi achosi anghyfleustra ac anawsterau o ran mynediad, tarfu a sŵn ar safle'r ysgol am nifer o resymau.

Mae'r gwaith ar y safle wedi ei gwblhau i raddau helaeth erbyn hyn, ac mae'r contractwr, Kier, wrthi'n gwneud mân waith cwblhau terfynol, yr ydym yn rhagweld y bydd wedi ei gwblhau yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf.

Yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd yn yr ysgol ar 11 Ionawr 2019, cytunwyd y bydd unrhyw waith allanol sy'n weddill yn cael ei gwblhau trwy Gyngor Sir Powys. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall gwaith gael ei wneud gyda chyn lleied o darfu pellach â phosibl ar yr ysgol.

Mae gan yr Awdurdod, HOWPS a Kier systemau rheoli prosiect cadarn a llywodraethu ac atebolrwydd eglur. Fodd bynnag, mae'n gwbl amlwg nad yw'r systemau hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran rheoli'r prosiect penodol hwn. Byddwn yn adolygu'r prosiect hwn i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, a bod gwelliannau yn cael eu gwneud lle mae'n ofynnol. Ni allaf ond ymddiheuro am ein perfformiad cyfunol yn Llangatwg, ond a gaf i hefyd ddiolch i Mrs Kathryn Marshall, y Pennaeth, am y cyfraniad gwerthfawr y bu'n rhaid iddi hi ei wneud, yn anffodus, i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau a bod yr ysgol yn weithredol.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Charlton oedd gofyn i'r ddau Ddeiliad Portffolio i gyfarfod â Llywodraethwyr yr Ysgol i roi sylw i'r materion a godwyd gan y Llywodraethwyr mewn llythyr tair tudalen, gan fod yr ysgol mewn sefyllfa druenus a bod y staff yn gweithio dan amgylchiadau eithafol. Yn absenoldeb y Deiliaid Portffolio, cytunodd yr Arweinydd i fynd â hyn yn ôl i'r Deiliaid Portffolio.

14.11. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd a'r Deiliad Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Pete Roberts

**Gwnaed yr honiad mewn adroddiad diweddar gan yr Huffington Post bod dros 25000 o ddrysau tân o'r un math a fethodd ag atal tân Grenfell rhag lledaenu yn dal i gael eu defnyddio mewn adeiladau Cyngor a chymdeithasau tai yn y DU.**

**A all y Deiliad Portffolio gadarnhau faint o'r drysau hyn sy'n dal i gael eu defnyddio ym Mhowys ac, os oes rhai, pa gamau ac amserlenni sydd ganddo ar gyfer gosod rhai newydd yn eu lle?**

**Ymateb**
Tai
Rwy'n falch o gadarnhau nad oes gennym unrhyw ddrysau o'r 5 math a nodwyd wedi eu gosod. Gweithgynhyrchwyd ein drysau gan JBW a JCK Joinery, a gwiriwyd ac ardystiwyd y ddau fel setiau drysau ar gyfer Ymwrthedd Tân. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y naill na'r llall wedi eu cyflenwi gan unrhyw un o'r 5 Gweithgynhyrchydd a enwyd yn yr Huffington Post.

Rydym wedi gofyn yn y gorffennol i JBW a JCK a yw eu drysau yn dal i gydymffurfio, ac maent wedi cadarnhau eu bod, gan ddarparu'r rhestr gymeradwy a darnau sy'n ofynnol ar gyfer atgyweiriadau. Rydym wedi anfon yr wybodaeth honno i'n partner cynnal a chadw menter ar y cyd, HOWPS, ac wedi cael sicrwydd y byddant yn defnyddio'r darnau hynny i gynnal cydymffurfiad.

Eiddo
Nid oes gan eiddo corfforaethol fanylion penodol am bob drws tân sydd wedi ei leoli yn ei bortffolio eiddo. Fodd bynnag, mae'n cynnal arolygiadau statudol o'r drysau tân a osodwyd yn flynyddol i sicrhau eu bod o safon briodol ac i ddarparu'r adraniad tân angenrheidiol.
Cynhelir arolygiadau gan unigolion cymwys a chaiff y rheolwr eiddo sy'n gyfrifol am yr adeilad ei hysbysu'n ffurfiol am unrhyw waith atgyweirio neu fethiannau o ran drysau.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Roberts oedd gofyn, yng nghyswllt adeiladau eraill, am ymateb mwy manwl ynghylch y drysau tân yn y rhain, gan fod diffyg eglurder yn ymateb y Deiliad Portffolio a gofynnodd a oedd yr holl ddrysau tân yn yr adeiladau eraill hyn o'r safon briodol. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Roberts a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.12. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Pete Roberts

**O ystyried bod 6 mis wedi mynd heibio ers diwedd y cyfnod ymgynghori ar gynigion Ffioedd Bathodynnau Glas, a all y deiliad portffolio esbonio pam na chyhoeddwyd yr ymateb swyddogol a roddwyd ac yr ymddengys erbyn hyn nad yw'r cynnig wedi ei gyfeirio at yr adolygiad parcio fel y nodwyd yn y Cyngor Llawn diwethaf ond wedi cael ei gynnwys yn y gyfres o arbedion effeithlonrwydd cyllidebol a gyflwynwyd ar gyfer ei bortffolio?**

**Ymateb**

Ni wnaed penderfyniad ar y mater eto. Mae'r ymgynghoriad wedi dod â llawer o faterion dilys i'r amlwg a bydd y papur yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud fel y nodwyd eisoes.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Roberts oedd gofyn a all y Deiliad Portffolio ddweud wrtho, yng ngoleuni'r addewidion a wnaed yn y seminar Cyllideb, pryd y bydd yr ymateb ymgynghori yn cael ei ddarparu o gofio yr addawyd hwn cyn y bydd y penderfyniadau cyllideb yn cael eu gwneud. Yn absenoldeb y Deiliad Portffolio, byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Roberts a'i rannu gyda holl Aelodau'r Cyngor.

14.13. Cwestiwn i'r Deiliad Portffolio ar gyfer Cyllid gan y Cynghorydd Jackie Charlton

**Bydd Brexit wedi bod yn destun pleidlais yn y Senedd drwy'r bleidlais ystyrlon. A all y Deiliad Portffolio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y ddarpariaeth o wasanaethau pob prosiect neu ddatblygiad a ariennir gan yr UE y mae'r Cyngor yn ymwybodol ohono? Dylai hyn gynnwys unrhyw brosiectau partneriaeth neu fygythiadau i gyllid LEADER II a fyddai wedi eu cynnwys hyd yma dan y taliad terfynol i'r UE neu drefniadau pontio.**

**Hefyd, a allwch chi amlinellu'r holl brosiectau y mae'r Cyngor wedi eu darparu yn y pum mlynedd diwethaf lle daeth rhywfaint o'r cyllid neu'r cwbl o grantiau UE?**
**Ymateb**

Mae'r effaith y bydd Brexit yn ei chael ar y ddarpariaeth o wasanaethau yn cael ei monitro'n agos mewn nifer o ffyrdd. Mae Log Effaith Brexit yn cael ei ddosbarthu i bob maes gwasanaeth yn yr awdurdod i'w gwblhau. Nodir y perygl cynyddol o golli cyllid ar gyfer prosiectau presennol a ariennir gan yr UE fel perygl uchel. Mae meysydd gwasanaeth eraill fel Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi cwblhau eu Hasesiad Risg Brexit eu hunain eisoes.

Mae gan Gabinet y Cyngor Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cynnwys Brexit fel risg a nodwyd.

Sefydlwyd Gweithgor Brexit a'r Cynghorydd Rosemarie Harris yw'r Cadeirydd. Mae'r rhai sy'n rhan o'r gweithgor yn dod o amrywiaeth o sefydliadau allanol a chynrychiolwyr sector.

Mae staff cynllunio at argyfwng yn mynychu Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys ac mae'r cyfarfodydd pythefnosol ar fin troi'n wythnosol.

**Prosiectau a ariennir yn allanol sy'n cael eu datblygu – elfen grant yn unig:**

Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru – Gwasanaethau Cefn Gwlad yw arweinydd y prosiect gyda phartneriaid allanol a chymorth ceisiadau gan y Gwasanaeth Adfywio. Gwerth bras £100,000. Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad hefyd yn bartner mewn cais prosiect Cymru gyfan gyda Chymdeithas y Cerddwyr.

Chwaraeon Cymru: Cronfa Iach ac Egnïol – Gwasanaethau Cefn Gwlad yw arweinydd y prosiect gyda phartneriaid allanol a chymorth ceisiadau gan y Gwasanaeth Adfywio. Gwerth bras £250,000.

Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru – Gwasanaethau Cydymffurfiad a Gwastraff yw'r arweinydd gyda phartneriaid allanol a chymorth ceisiadau gan y Gwasanaeth Adfywio. Gwerth bras £40,000. Mae'r Gwasanaeth Gwastraff hefyd yn bartner mewn prosiect Cymru gyfan gyda Cadwch Gymru'n Daclus, gwerth bras o £30,000 i Gyngor Sir Powys.

Croeso Cymru: cynllun Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth – y Gwasanaeth Adfywio yw arweinydd y prosiect gyda phartneriaid allanol. Gwerth bras £128,000 o gyllid grant.

Croeso Cymru: Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol – y Gwasanaeth Adfywio yw arweinydd y prosiect gydag Awdurdodau Lleol eraill a phartneriaid allanol. Gwerth bras £128,000 o gyllid grant.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Blaenoriaeth 5 – gwerth bras o £4 miliwn i'r Rhanbarth dros 4 blynedd. Mae camau cynnar ar gyfer syniadau prosiect yn cael eu datblygu.

**Prosiectau gweithredol presennol a ariennir gan yr UE – elfen grant yn unig**:

Y Gwasanaeth Adfywio: prosiect Parc y Llyn, Llandrindod - £126,000

Y Gwasanaeth Adfywio: prosiect Gweithffyrdd + Powys - £350,000

Y Gwasanaeth Ieuenctid: prosiect Cynnydd - £1 filiwn (yn fras)

Darparwyd yr wybodaeth gan Louise Nicholson, Swyddog y Rhaglen Datblygu Gwledig:

O safbwynt Cynllun Datblygu Gwledig a LEADER, gweler manylion ein cyllid ar gyfer y rhaglen hon a'r un flaenorol isod:

Mae Arwain wrthi'n darparu'r cyllid LEADER sy'n rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae manylion cyllidebau'r prosiectau fel a ganlyn:

Dyddiad cychwyn y prosiect: 1 Mai 2015

Dyddiad terfyn y prosiect: 31 Rhagfyr 2021

Cyfanswm costau'r prosiect: £6,061,616

Cyfanswm cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig (Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig): £5,103,998*

Cyfanswm yr arian cyfatebol sydd ei angen gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol: £957,618

*Yn wreiddiol, roedd cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig i'w rannu ar sail 50/50 rhwng Llywodraeth Cymru a'r UE. Yn dilyn refferendwm yr UE yn 2016, cyhoeddwyd llythyr gan Mark Drakeford AC (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol) yn cadarnhau y bydd sicrwydd oes o gyllid i bob gweithrediad a gymeradwywyd ar adeg ymadawiad y DU â'r UE - gan roi sicrwydd i'r holl fuddiolwyr trwy hynny y gallant barhau i gyfrannu at ddarpariaeth

Rhaglenni 2014-20 fel y cynlluniwyd”. Mae ein cyllid o £5,103,998 yn ddiogel felly, a bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu unrhyw ddiffyg o ran cyllid UE. Rhoddwyd y cyfle inni hefyd ymestyn y rhaglen ariannu tan 30/6/23, ond nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer yr estyniad hwn ar hyn o bryd, felly mae angen defnyddio cyllidebau presennol. Nid oes gennym gyllideb ddigonol i ymestyn y tu hwnt i 31/12/21 ar hyn o bryd ac felly nid ydym wedi gallu ymestyn y rhaglen ariannu ym Mhowys. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gallai rhagor o gyllid fod ar gael yn y dyfodol yn sgil tanwariant mewn rhannau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig ond nid ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth bendant am hyn eto.

Cyn y rhaglen ariannu hon, darparwyd rhaglen ariannu flaenorol y Rhaglen Datblygu Gwledig (Cynllun Busnes 2). Mae manylion cyllidebau'r prosiect fel a ganlyn:

Dyddiad cychwyn y prosiect: 1 Gorffennaf 2008

Dyddiad terfyn y prosiect: 30 Ebrill 2015

Cyfanswm costau'r prosiect: £7,006,111

Cyfanswm cyllid y Rhaglen Datblygu Gwledig (Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig): £5,475,806 (gan gynnwys £2,737,903 o gyllid UE)

Cyfanswm yr arian cyfatebol sydd ei angen gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol: £1,530,305

**Sylwer** mai'r prosiectau a restrir uchod yw'r rhai y mae'r Gwasanaeth Adfywio naill ai'n eu cefnogi neu'n eu harwain yn uniongyrchol. Efallai'n wir y bydd prosiectau mewn meysydd gwasanaeth eraill sydd hefyd yn derbyn cyllid UE neu gyllid allanol, nad yw'r Gwasanaeth Adfywio yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Charlton oedd gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf nawr neu yn y dyfodol o'r cyfarfodydd a gadeirir gan yr Arweinydd. Dywedodd y Deiliad Portffolio y byddai ef a'r Arweinydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.

14.14. Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Gareth Ratcliffe

**Gyda'r Cyngor Sir yn wynebu toriadau pellach i swyddogaethau anstatudol a dirprwyedig, mae'n edrych yn gynyddol tuag at gymunedau'n rhedeg y gwasanaethau hyn pan fo modd. Mae cymunedau fel y Gelli Gandryll wedi bod yn ceisio cytuno ers dros 3 blynedd ar drosglwyddiad o asedau gyda'r Cyngor Sir ac i gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau, ond nid yw wedi gallu gwneud hynny, oherwydd ffactorau sy'n cynnwys y penderfyniad unochrog diweddar gan y Cabinet presennol i newid y cytundeb a wnaed gyda Chabinet blaenorol y Cyngor Sir. Mae hyn wedi arwain at Gyngor y Gelli Gandryll yn cyllidebu'r praesept a gwneud ymrwymiadau, efallai na fydd yn gallu eu gweithredu bellach, i gadw'r gwasanaethau yn y gymuned. Nid dyma'r unig gymuned sydd wedi cael trafferth yn gweithio gyda'r Cyngor Sir ar drosglwyddiadau o asedau. Ceir pryderon parhaus sy'n cael eu codi gan lawer o gymunedau am y diffyg hyblygrwydd ac agwedd gyfyngol y Cyngor Sir yn enw "tegwch i bawb".**

**A all yr arweinydd friffio'r Cyngor llawn ar sut y mae'r Cabinet yn bwriadu gweithio gyda chynghorau a chymunedau lleol dros y rownd nesaf o doriadau, gyda'r disgwyliadau pellach gan Lywodraethau'r DU a Chymru y bydd angen i gymunedau redeg mwy o wasanaethau yn y gymuned gan ddefnyddio gwirfoddolwyr?**

**Ymateb**
Mae Powys wedi ceisio gweithio gyda phartneriaid allweddol fel Cynghorau Tref a Chymuned erioed, a gallwn ddangos cryn lwyddiant pan ddaw i drosglwyddo asedau a gwasanaethau. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r Seminarau Cyllideb diweddar fod y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol parhaus gan fod y pwysau ar wasanaethau yn fwy na'n cyllid. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y gallai rhai gwasanaethau a werthfawrogir gan gymunedau gael eu rhedeg yn hytrach gan grwpiau lleol neu Gynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Cyngor yn dal i fod yn agored i drafod newidiadau o'r fath gydag unrhyw grŵp sy'n dod yn ei flaen gyda chynnig. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, y Cwmni Buddiant Cymunedol yn Llanfyllin oedd y trefniant cyntaf o'r fath yng Nghymru sy'n dangos y byddwn yn agored i unrhyw fodel a gynigir.

Nododd y Cynghorydd Ratcliffe bod y Cwmni Buddiant Cymunedol yn Llanfyllin wedi dod i ben erbyn hyn. Mae Cynghorau Cymuned yn colli ffydd oherwydd gweledigaeth y Cyngor sy'n newid yn barhaus ac ni all Cynghorau Cymuned gyllidebu. Ei gwestiwn atodol oedd gofyn i'r Arweinydd sut yr oedd y Cyngor yn mynd i weithio gyda chymunedau a sicrhau cymunedau na fydd unrhyw gytundebau a wneir yn cael eu newid gan Gabinetau yn y dyfodol. Atebodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ystyried ffyrdd o weithio gyda chymunedau a defnyddio gwirfoddolwyr, ond ni allai unrhyw Gabinet addo bod cytundebau blaenorol yn cael eu cadw.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfreithiwr y Cyngor nad oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch ECO3, y cyfeiriwyd ato mewn e-bost at yr Aelodau y diwrnod blaenorol.

Codwyd pryderon mai cyfarfodydd Cyngor oedd yr unig gyfle i Aelodau holi Deiliaid Portffolio a bod y broses yn ddiystyr gan fod cymaint ohonynt yn absennol heddiw. Dywedodd y Cyfreithiwr y gellid ystyried fformat cyfarfodydd y Cyngor gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Cynghorydd DW Meredith (Cadeirydd)**